# Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth Primary School

## Prosbectws 2026-2027



www.gwaelodygarth.co.uk

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Datganiad gweledigaeth | **4** |
| Datganiad o fwriad | **4** |
| Gwybodaeth | **5** |
| Llywodraethwyr | **6** |
| Staff | **7** |
| Trefn dosbarthiadau | **8** |
| Derbyniadau | **8** |
| Oriau'r ysgol | **9** |
| Cinio ysgol | **10** |
| Ethos, Ymddygiad a Disgyblaeth | **10** |
| Y Gymraeg | **11** |
| Siarter Iaith | **11** |
| Dysgu Digidol | **12** |
| Llais Ein Plant a Hawliau Plant | **13** |
| Ein Cwricwlwm | **16** |
| Cwricwlwm i Gymru | **17** |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | **18** |
| Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg | **18** |
| Cydaddoli a gwasanaethau | **18** |
| Gwaith Cartref | **19** |
| Tai bach | **19** |
| Asesu | **20** |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol | **20** |
| Gwersi offerynnau cerdd | **21** |
| Trosglwyddo i'r Uwchradd | **21** |
| Presenoldeb | **22** |
| Cyfle Cyfartal | **22** |
| Cynllun Cydraddoldeb | **23** |
| Rhifau ffôn argyfwng | **23** |
| Iechyd, Lles a Diogelwch | **24** |
| Addysg Gorfforol a Gemau | **24** |
| Gweithgareddau allgyrsiol | **25** |
| Gwisg Ysgol | **25** |
| Diogelwch | **26** |
| Diogelu plant | **26** |
| Cyswllt ysgol gartref | **27** |
| Polisi codi tâl | **28** |
| Clwb Brecwast a Clwb ar-ôl ysgol | **28** |
| Ymweliadau Addysgol | **29** |
| Ymweliadau preswyl | **29** |
| Cwynion | **30** |
| Dyddiadau'r Tymor 2026-2027 | **31** |

**Pennaeth: Mrs Helen Sharkey**
Main Road, Gwaelod y Garth
Cardiff CF15 9HJ

029 2081 0489
ysgolgwaelodygarth@cardiff.gov.uk

**Cadeirydd y Llywodraethwyr:**
Dona Lewis

**Math o ysgol:**
Ysgol Gynradd

v

# Datganiad Gweledigaeth

**Ysbrydoli**

**Cefnogi**

**Llwyddo**

# Datganiad o Fwriad

**Ein nod fel ysgol yw darparu'r safonau addysg a chefnogaeth uchaf posibl i'n holl ddisgyblion o fewn amgylchedd lle mae gan bob disgybl ac aelod o'r tîm gyfleoedd niferus i gyflawni a rhagori ar eu potensial a lle nad oes nenfwd.**

**Yn ysgol Gwaelod y Garth byddwn yn:**


- **annog pob disgybl i ragori**
- **meithrin uchelgais**
- **datblygu disgyblion hyderus, parchus**
- **darparu her**
- **gynhwysol**
- **dathlu llwyddiant**
- **annog creadigrwydd ac arloesedd**



# Gwybodaeth

**Mae Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth yn ysgol ffrwd ddeuol, sy'n darparu addysg i'w disgyblion trwy gyfrwng Cymraeg neu Saesneg yn dibynnu ar ddewis rhieni.**

Rydym wedi ein lleoli ym mhentref Gwaelod y Garth, rhyw saith milltir o ganol Caerdydd. Yr awdurdod addysg leol yw Caerdydd.
Mae dalgylch y ffrwd Saesneg yn cynnwys pentref Gwaelod y Garth tra bod dalgylch yr adran Gymraeg yn cynnwys Gwaelod y Garth, Tongwynlais, Treforgan a Ffynnon Taf.




Ein nod fel ysgol yw cyflwyno cwricwlwm arloesol yr 21ain ganrif a fydd yn ysbrydoli ein disgyblion ac yn eu helpu i ddatblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol, mentrus, gwybodus, iach a hyderus. Mae gennym dîm ymroddedig, cyfeillgar sy'n gweithio'n galed. Mae gan bob aelod o staff gyfrifoldebau am feysydd o'r cwricwlwm ac fel ysgol rydym yn darparu datblygiad proffesiynol parhaus o ansawdd uchel i'n staff. Yn ogystal â'r staff addysgu mae gennym nifer o gynorthwywyr sy'n darparu cefnogaeth werthfawr.

Mae ein gweithgareddau allgyrsiol yn cynnwys pêl-rwyd, rygbi, pêl-droed, criced, nofio, côr, dawns, offerynnau cerdd, TGCh a'r Urdd. Rydym yn croesawu aelodau o gymuned yr ysgol i helpu gyda darllen, technoleg, coginio, garddio a chelf.

Mae gennym Gymdeithas Rieni ac Athrawon gweithgar a bywiog sy'n darparu adnoddau ychwanegol gwerthfawr i'n disgyblion a'n staff.

Mae cymuned yr ysgol yn rhan annatod ac unigryw o ethos Ysgol Gwaelod y Garth a chredwn yn gryf mai'r ffordd orau o ddarparu addysg yw trwy bartneriaeth lwyddiannus rhwng y cartref, yr ysgol a'r gymuned leol. Gyda chymorth teuluoedd, rydym am feithrin cariad at ddysgu ac arfogi pob plentyn â'r cyfarpar sydd angen i lwyddo mewn bywyd.

# Y Corff Llywodraethol

**Mae aelodau'r Corff Llywodraethol yn adlewyrchu traws-doriad ein cymuned leol. Mae'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cael eu hethol ar ddechrau pob blwyddyn academaidd newydd.**

Yn dilyn rheolau Rheoli Ysgolion Lleol mae gan y Corff Llywodraethol gyfrifoldebau sy'n debyg i Fwrdd Cyfarwyddwyr ym myd busnes. Maent hefyd yn ddolen gyswllt rhwng teuluoedd a'r ysgol. Mae'r Corff Llywodraethol yn cyfarfod o leiaf unwaith bob tymor. Mae'r Pennaeth yn paratoi adroddiadau manwl i'w drafod gan y Corff Llywodraethol yn ymwneud a materion eang megis staffio, cyllid, cwricwlwm, cynnydd a lles.

Mae nifer o is-bwyllgorau Llywodraethwyr sydd hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd. Maent yn cynnal teithiau dysgu, yn trafod gyda staff a disgyblion ac yn gwerthuso effaith blaenoriaethau gwella'r ysgol.

Gellir cysylltu â'r Cadeirydd a'r Clerc drwy ysgrifennu at swyddfa'r ysgol. Ni thelir unrhyw dreuliau i unrhyw aelod o'r Corff Llywodraethol.

O bryd i'w gilydd bydd angen ethol rhieni i'r Corff Llywodraethol ac mae gwybodaeth am drefniadau ethol rhiant-lywodraethwyr yn cael eu hanfon at bob teulu.

**Cadeirydd:** Mrs Dona Lewis

**Is-gadeirydd:** Mr Meurig Jones

**Pennaeth:** Mrs Helen Sharkey

**Clerc y Llywodraethwyr:** Ms Emma Taylor

**Cynrychiolwyr Awdurdod Lleol:**

Fflur Rowlands
Rhys James
Meurig Jones

**Llywodraethwyr Cymunedol:**
Mrs Non Gwilym
Mr Huw Jones
(+ gwagle)

**Rhiant Lywodraethwyr:**
Mr Huw Darch
Mrs Dona Lewis
Mrs Claire Meredith
Mrs Cadi Wigley

**Staff:**
Mrs Wendy Owen
Mrs Debbie Thole

**Manylion cyswllt**

**Mrs Dona Lewis (Cadeirydd)**
Ysgol Gwaelod y Garth
Main Road, Gwaelod y Garth
Caerdydd CF15 9HJ

029 2081 0489
ysgolgwaelodygarth@cardiff.gov.uk

**Awdurdod Addysg Lleol**
Gwasanaeth Ysgolion a Dysgu Gydol Oes
Cyngor Sir Caerdydd, Neuadd y Ddinas, Atlantic Wharf, Caerdydd CF1 5UW



# Staff

| | |
|---|---|
| **Pennaeth** | Mrs Helen Sharkey |
| **Dirprwy Bennaeth** | Miss Alaw Hughes |
| **Arweinydd CC1 a CC2** | Mrs Anwen Ellis |
| **Arweinydd CC3** | Mrs Helen Davies |
| **Cydlynydd ADY** | Mrs Wendy Owen |
| **Athrawon** | Mrs Anwen Ellis<br>Miss Alaw Hughes<br>Mrs Rhian Darch<br>Miss Claire Maddern<br>Miss Alycia Alleyne<br>Mr Geraint Williams<br>Mrs Helen Davies<br>Mrs Caryl Jones<br>Mrs Wendy Owen |
| **Cynorthwywyr Addysgu** | Mrs Rebecca Griffiths (HLTA)<br>Mrs Nikki Jones (HLTA)<br>Mrs Rhiannon Jones<br>Mrs Julie Earles<br>Miss Becca Thomas<br>Mrs Lowri Williams<br>Miss Rebecca Thomas<br>Mrs Debbie Thole<br>Mrs Sophie Moreno<br>Miss Izzy Godfrey<br>Miss Heledd Roberts<br>Ms Joanna Godwin |
| **Staff Gweinyddol** | Mrs Emma Taylor |
| **Gofalwr** | Mr Alex Selway |
| **Goruchwylwyr amser cinio** | Mr P Edwards<br>Mrs S Potter<br>Ms F Ross |
| **Cogyddion a Clwb Brecwast** | Mrs T McCarthy<br>Miss J Hurley<br>Miss H McCluskay<br>Mrs Julie Earles<br>Miss Becca Thomas<br>Mrs Lowri Williams |
| **Glanhawyr** | Mrs J John<br>Miss A Miles<br>Mrs S Potter |

# Trefn Dosbarthiadau

**Mae gan yr ysgol naw dosbarth, sy'n cynnwys y Feithrin. Mae 24 o lefydd ar gael yn y Feithrin yn y bore ac hefyd yn y prynhawn.**

Mae un dosbarth ar gyfer pob grŵp blwyddyn yn y ffrwd Gymraeg gyda hyd at 30 o ddisgyblion ym mhob dosbarth. Mae un dosbarth yn y ffrwd Saesneg lle y gellir derbyn 7 disgybl i bob grŵp blwyddyn.

Gellir wneud cais am strwythur staffio eleni o swyddfa'r ysgol.

# Derbyniadau

**Rydym yn gweithredu o fewn polisi derbyn yr Awdurdod Lleol i sicrhau cyfle cyfartal i bob plentyn. Byddwn yn eich gwahodd chi a'ch plentyn am ymweliad pontio cyn iddynt ddechrau yn y Feithrin neu'r Derbyn**

Bydd pob rhiant neu warcheidwad yn cael cyfle i gwrdd â'r aelodau staff. Byddwch hefyd yn derbyn llyfryn sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sy'n angenrheidiol arnoch.





# Oriau'r Ysgol

## Sesiynau dyddiol

**Bore:**

**Meithrin**
09.00 - 11.30

**Derbyn – Blwyddyn 6**
09.00 - 12.00

**Prynhawn:**

**Meithrin**
13.00 - 15.30

**Derbyn – Blwyddyn 6**
13.00 - 15.30

**Y Feithrin**
Hanner diwrnod yw'r sesiynau Meithrin - naill ai bore rhwng 09.00 - 11.30 neu brynhawn rhwng 13.00 - 15.30. Gofynnwn i chi ollwng eich plentyn gydag aelod o staff ym mhrif fynedfa'r Feithrinfa a'u casglu o'r un man ar ddiwedd y sesiwn.

**Derbyn - Blwyddyn 6**
Gofynnwn i blant gerdded neu seiclo i'r ysgol lle bynnag bod hynny'n bosib. Rydym yn cynnig bws cerdded dyddiol o Heol Berry lle y bydd staff yn cwrdd â phlant er mwyn cerdded gyda hwy i'r ysgol. Gofynnwn am bob cydweithrediad gyda hyn er mwyn osgoi tagfeydd yn yr ardal ger yr ysgol a thrwy'r pentref.

Croesewir y plant wrth gatiau allanol yr ysgol bob bore gan aelod o staff. Mae'r gatiau ar agor rhwng 8.50am a 9am. Noder na all staff dderbyn plant wrth y gatiau tan 8.50am.

Os fyddwch chi'n hwyr yr ysgol ar ôl i'r gatiau gau, rhaid mynd i'r brif swyddfa er mwyn cofrestru eich plentyn.

Ar ddiwedd y diwrnod ysgol, am 15:30, bydd yr athrawon yn dod â'r disgyblion i'r iard wrth ymyl eu dosbarth er mwyn trosglwyddo disgyblion at yr oedolion sydd yn eu casglu.

Rydym yn ymwybodol iawn o ddiogelwch y plant yn ystod oriau ysgol ac yn sicrhau goruchwyliaeth ddigonol o ddisgyblion bob amser.

## Amserlen

**Mae tri egwyl yn ystod y dydd:**

**Egwyl bore**
10.15 – 10.35 (Derbyn – Blwyddyn 2)
10.40 – 11.00 (Blwyddyn 3 – 6)

**Amser cinio**
12.00 - 13.00

**Egwyl prynhawn**
14.15 - 14.30 (Blwyddyn 3 – 6)
14.35 - 14.50 (Derbyn – Blwyddyn 2)

Goruchwylir disgyblion gan aelodau staff yn ystod amserau chwarae a chinio.

Mae llaeth am ddim ar gael i blant Meithrin hyd at Blwyddyn 2. Anogir pob plentyn i ddod â photel o ddŵr gyda nhw i'r ysgol bob dydd. Mae modd llenwi poteli dŵr ym mhob dosbarth.

# Cinio Ysgol

**Mae hawl bellach gan bob plentyn mewn ysgol gynradd yng Nghymru i gael prydau ysgol am ddim erbyn. Darperir cinio i'r plant yn y neuadd.**

Mae'n rhaid i deuluoedd ddewis ac archebu bwyd i bob plentyn ar-lein yn wythnosol. Gall ddisgyblion hefyd ddewis dod â phecyn bwyd i'r ysgol yn hytrach na derbyn cinio.

Er bod hawl gan bob plentyn cynradd i dderbyn cinio ysgol am ddim o Fedi 2024, fe anogwn unrhyw deuluoedd ag oedd â hawl yn flaenorol i ymgeisio am y **Grant Hanfodion Ysgol** gan y gall ddod â buddion eraill, gynnwys grant gwisg ysgol a gostyngiad ar deithiau addysgol. Ceisiwch trwy glicio fan hyn i weld os ydych yn gymwys: Grant Hanfodion Ysgolion

# Ethos, ymddygiad a disgyblaeth

**Yn Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth mae disgyblaeth yn gryf ond yn deg. Rydym yn gweithio o fewn fframwaith adferol ac mewn partneriaeth agos â'n teuluoedd er mwyn datrys unrhyw broblemau a allai godi - ni allwn lwyddo heb gefnogi ein gilydd.**

Ein nod yw adeiladu a chynnal perthnasau cadarnhaol ac effeithiol er mwyn annog cydweithio agos rhwng holl aelodau cymuned yr ysgol. Anelwn at ddatblygu hunan-reolaeth ac empathi gadarn ym mhob disgybl. Rydym yn gweithio'n agos gyda disgyblion a theuluoedd i adfer perthnasau pan fo'r angen yn codi. Mae gan yr ysgol ddisgwyliadau uchel iawn o barch, ymddygiad a chydweithio a disgwyliwn i bob aelod o'r gymuned ymddwyn yn gyfrifol tuag at eu hunain, at eraill ac at eiddo, boed hynny tu fewn neu du allan i furiau'r ysgol.





# Y Gymraeg

**Mae Ysgol Gwaelod y Garth yn ysgol Ffrwd Ddeuol. Yn y ffrwd Gymraeg, addysgir pob pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg a chaiff Saesneg ei ddysgu fel pwnc o Flwyddyn 3.**

Anogir pob disgybl i siarad Cymraeg bob amser. Mae'r ysgol yn defnyddio'r Siarter Iaith i annog disgyblion i gymdeithasu yn y Gymraeg yn ystod oriau ysgol a thu allan i'r ysgol.

Yn y ffrwd Saesneg, addysgir pob pwnc trwy gyfrwng y Saesneg tra hefyd yn darparu cyfleodd rheolaidd i ddatblygu'n hyderus ac yn abl fel siaradwyr Cymraeg ail iaith.. Rydym yn annog disgyblion i siarad Cymraeg achlysurol o amgylch yr ysgol lle bynnag y bo modd ac i ddangos parch tuag at yr iaith a'r diwylliant Cymreig. Mae'r ffrwd Saesneg hefyd yn hybu'r Siarter Iaith.

Mae'n bwysig bod rhieni disgyblion yn yr uned Gymraeg yn cefnogi eu plant gyda'r Gymraeg ac yn eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft gwylio rhaglenni Cymraeg ar y teledu, gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg a defnyddio apiau Cymraeg. Anfonir gwybodaeth am gyrsiau Cymraeg i oedolion yn rheolaidd.

# Y Siarter Iaith

**Mae'r ysgol wedi derbyn Gwobr Aur y Siarter Iaith sy'n cefnogi nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.**

Mae'r plant yn allweddol wrth arwain a gyrru'r fenter hon yn ei blaen. Mae ein pwyllgor disgyblion 'Y Dreigiau Doeth' yn gosod targedau bob tymor yn gysylltiedig â hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. Am fwy o wybodaeth ewch i'n **gwefan**.



# Dysgu Digidol

**Mae dysgu digidol yn rhan annatod o'n meddylfryd ac addysgeg yma yn Ysgol Gwaelod y Garth. Trwy gynllunio gofalus, anelwn at sicrhau bod dysgu digidol yn cael ei blethu ar draws ein cwricwlwm.**

Mae cymhwysedd digidol yn agwedd hanfodol ar gwricwlwm ein hysgol, gan ei fod yn rhoi'r sgiliau hanfodol i blant ffynnu yn y byd sy'n cael ei yrru gan dechnoleg heddiw. Trwy integreiddio offer digidol, mae disgyblion yn dysgu sut i gydweithio'n effeithiol mewn mannau rhithwir, cyfathrebu'n gyfrifol fel dinasyddion digidol diogel, a chymhwyso meddwl beirniadol i ddatrys problemau gan ddefnyddio data a dulliau cyfrifiadurol. Trwy ddefnyddio llwyfannau fel Hwb, iMovie, Google Classroom, ac offer digidol eraill, mae disgyblion nid yn unig yn gwella eu creadigrwydd ond hefyd yn datblygu'u gallu i gynhyrchu gwaith o ansawdd uchel.





# Llais ein plant

## Llais ein plant

**Mae'n hanfodol i ni fod ein dysgwyr yn rhan strategol o lunio a gweithredu gweledigaeth ein hysgol.**

Rydym wedi creu senedd ysgol o'r enw '**Llais**' sy'n cynnwys y Cyngor Ysgol a chwe phwyllgor dysgwyr. Mae pob disgybl o Flynyddoedd 2 i 6 yn aelod o'r Pwyllgorau Llais. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am weithgareddau, prosiectau a chynlluniau strategol blynyddol y pwyllgorau ar ein gwefan.

### Ein Pwyllgorau Llais:

- Y Dreigiau Doeth
- Pencampwyr Hawliau
- Pwyllgor Eco
- Dinasyddion y Dyfodol
- Dewiniaid Digidol
- Llysgenhadon Lles

## Pwyllgorau Llais

**Blaenoriaethau ein pwyllgorau Llais yw:**

- Gwneud penderfyniadau ysgol gyfan wrth drefnu pleidleisiau i hyrwyddo gweledigaeth yr ysgol yng nghyd-destun y pedwar diben.
- Creu cynlluniau strategol yn nodi blaenoriaethau pwyllgorau ar gyfer y flwyddyn.
- Mesur effaith y gwaith o ran ein gweledigaeth a dewis dull o fesur effaith yn yr ysgol.
- Cyfrannu at bolisïau ysgol gyfan, gan gyfrannu hefyd at gyfarfodydd uwch dîm, staff a llywodraethwyr.
- Cysylltu â'r holl ran-ddeiliaid i hyrwyddo gweledigaeth yr ysgol a'r pedwar diben yn y gymuned ehangach.

.

# Prosiectau

## WI / Merched y Wawr

**Mae aelodau Merched y Wawr lleol yn ymweld â'r ysgol yn wythnosol ac yn gweithio gyda Blwyddyn 5.**

Mae'r disgyblion yn dysgu sgiliau newydd megis gwnïo, gwau, coginio ac yn cydweithio ar brosiectau yn yr ysgol.

## Ysgol y Goedwig

**Mae gennym ystafell ddosbarth awyr agored yn y goedwig sydd y ger yr ysgol.**

Mae'r disgyblion yn cael gwersi rheolaidd yn yr Ysgol Goedwig ac mae pob dosbarth yn cael cyfle i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau awyr agored.





# Hawliau Plant

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig

**Trwy ddilyn egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant, mae hawliau plant wedi'u hymgorffori ym mhob agwedd o fywyd ysgol ac yn sail i'n gwerthoedd, ein polisïau a'n harferion dyddiol.**

Trwy ddulliau sy'n parchu hawliau, mae disgyblion yn cael eu grymuso i godi eu llais, i wneud dewisiadau da, dysgu dathlu amrywiaeth a chyfrannu'n hyderus i cymuned gynhwysol yr ysgol. Mae plant yn dysgu am eu hawliau a'u cyfrifoldebau trwy brofiadau bob dydd, gan sicrhau bod parch, tegwch a chynhwysiant wedi'u hymgorffori ar draws yr ysgol. Mae ein hymrwymiad i hyrwyddo a diogelu hawliau plant yn creu amgylchedd meithrin lle mae pob plentyn yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn ddiogel ac yn gallu ffynnu.

Rydym yn falch o fod wedi ennill **Gwobr Arian Ysgolion sy'n Parchu Hawliau**, gan gydnabod ymrwymiad cryf ein disgyblion, ein staff a chymuned ehangach yr ysgol i ymgorffori hawliau plant yn gadarn drwy'r yr ysgol.



# Ein Cwricwlwm

**Yn Ysgol Gwaelod y Garth rydym yn anelu at ddatblygu dysgwyr hyderus, uchelgeisiol, gwybodus a chreadigol. Ein prif flaenoriaethau yw galluogi ein dysgwyr i wireddu'r pedwar diben a'u paratoi ar gyfer dysgu parhaus.**

Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn ddatganiad clir o'r hyn sy'n bwysig wrth ddatblygu addysg eang a chytbwys. Y pedwar diben yw'r weledigaeth a'r dyhead a rennir ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc. Ein nod yw gosod disgwyliadau uchel a galluogi pob dysgwr i gyflawni ei lawn botensial. Yn ysgol Gwaelod y Garth rydym yn cynnig addysg eang a chytbwys sy'n galluogi pob dysgwr i wneud cysylltiadau rhwng y gwahanol feysydd dysgu a phrofiad ac i gymhwyso eu dysgu i sefyllfaoedd a chyd-destunau newydd. Rydym yn cefnogi dilyniant ar hyd y continwwm dysgu ac yn sicrhau eu bod yn datblygu gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau.

Rydym yn archwilio beth mae'r pedwar diben yn ei olygu i bob dysgwr a chredwn yn gryf y dylid paratoi a dylunio cwricwlwm sy'n cyfrannu at ddatblygiad pob un o'n dysgwyr wrth iddynt gymhwyso'r pedwar diben ar draws y cwricwlwm.

Fel ysgol mae gennym ddealltwriaeth glir o pam mae pethau'n cael eu dysgu a'u gwneud. Mae dyluniad y cwricwlwm yn gofyn i ni resymu pam mae dysgu penodol yn bwysig a beth yw hanfod y dysgu hwnnw. Ein nod yw darparu cwricwlwm arloesol a heriol a fydd yn ysbrydoli ein disgyblion i ragori ar eu potensial.





# Cwricwlwm i Gymru

**Mae Cwricwlwm i Gymru wedi'i ddatblygu i gyflawni pedwar diben allweddol. Ein nod yw cynnig ystod eang o brofiadau gwerthfawr ac ystyrlon sydd yn annog ein disgyblion i fod yn:**

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog
- Unigolion iach, hyderus
- Gyfranwyr mentrus, creadigol
- Ddinasyddion moesol, gwybodus

**Mae gan ein Cwricwlwm Cymru chwe maes dysgu a phrofiad.**

1. **Celfyddydau Mynegiannol** sy'n ymgorffori celf, dawns, drama, ffilm a chyfryngau digidol, a cherddoriaeth. Bydd yn annog creadigrwydd a meddwl beirniadol ac yn cynnwys perfformio.
2. **Dyniaethau** sy'n ymgorffori daearyddiaeth, hanes, addysg grefyddol, astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol. Bydd yn seiliedig ar brofiadau dynol a bydd hefyd yn ymdrin â diwylliant Cymru.
3. **Iechyd a lles:** ymdrin ag gweddau corfforol, seicolegol, emosiynol a chymdeithasol bywyd, gan helpu disgyblion i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd a'u lles a dysgu sut i reoli dylanwadau cymdeithasol.
4. **Gwyddoniaeth a Thechnoleg** sy'n ymgorffori bioleg, cemeg, ffiseg, gwyddoniaeth gyfrifiadurol, a dylunio a thechnoleg.
5. **Mathemateg a Rhifedd:** gan gynnwys dysgu trwy chware a phrofiad gan weithio'n annibynnol ac yn gydweithredol ag eraill.
6. **Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu:** Cymraeg a Saesneg, llenyddiaeth ac ieithoedd rhyngwladol, gan gynnwys dysgu Cymraeg i ddisgyblion nad ydyn nhw'n defnyddio'r Gymraeg fel eu hiaith gyntaf.

Mae cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn cael eu hymgorffori o fewn pob maes cwricwlwm.

# Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

**Mae’r ysgol yn ymgorffori Addysg Perthynas a Rhywioldeb ar draws y cwricwlwm.**

Mae perthnasau iach yn elfen hanfodol o gynnal iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol da. Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn archwilio’r gwahanol ffyrdd y mae ystod eang ac amrywiol o ddylanwadau yn effeithio ar y gallu i ffurfio a chynnal perthnasoedd cadarnhaol. Gan sicrhau bod yr addysgu ar lefel datblygiadol briodol, mae hyn yn cynnwys perthnasoedd teuluol, cyfeillgarwch, perthnasoedd proffesiynol a pherthnasoedd rhywiol.

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn elfen bwysig a mandadol o greu ymagwedd ysgol gyfan i gefnogi iechyd a lles corfforol, meddyliol ac emosiynol cyffredinol.

# Cyd-addoli a gwasanaethau

**Mae gwerthoedd sylfaenol yr ysgol yn cynnwys ein cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addoli ar y Cyd.** Mae'r rhain yn cynnwys parchu ein gilydd a thrin pawb fel y byddem yn dymuno cael ein trin, deall a pharchu ein hamgylchedd, trin pawb yn gyfartal a gweithio dros gymdeithas heddychlon. Byddai llawer yn cydnabod bod y gwerthoedd hyn yn cael eu rhannu gan ddilynwyr crefyddau mawr y byd, gan gynnwys Cristnogaeth, Islam, Bwdhaeth, Iddewiaeth a Hindŵaeth.

**Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg** yn un o ofynion statudol Cwricwlwm i Gymru ar gyfer pob disgybl. Byddwn yn ystyried y maes llafur a gyhoeddir gan yr awdurdod lleol wrth gynllunio ein cwricwlwm. Bydd hyn yn ein helpu i lunio cwricwlwm sy'n cyflawni'r pedwar diben ac yn paratoi dysgwyr i fod yn ddinasyddion cyfrifol a gwybodus mewn byd amrywiol sy'n newid yn gyflym. Bydd disgyblion yn astudio ac yn trafod gwahanol grefyddau yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Byddwn yn cynnal gwasanaethau **addoli ar y cyd** yn ddyddiol. Bydd y gwasanaethau yn seiliedig ar egwyddorion Cristnogol ond byddant yn gynhwysol ac yn agored i blant o bob crefydd. Mae'r gofyniad i gynnal cynulliadau o'r fath yn ofyniad deddfwriaethol. Nod ein gwasanaethau yw rhoi cyfle i'n plant fyfyrio ar werthoedd ysbrydol a moesol, addoli ac archwilio eu credoau eu hunain a hyrwyddo ethos a gwerthoedd cyffredin.

Yn ystod y flwyddyn mae'r ysgol yn trefnu gwasanaethau teuluol a gwahoddir rhieni i ymuno â'r disgyblion yn y weithred o addoli.



# Gwaith Cartref

**Mae tasgau gwaith cartref yn y chwe maes dysgu a phrofiad yn cael eu gosod pob hanner tymor i bob disgybl o’r Feithrin i Flwyddyn 6.**

Rydym yn cynnal diwrnodau dathlu gwaith cartref ar ddiwedd y tymor lle bo cyfle gan i disgyblion i rannu eu gwaith a’u lwyddiannau gydag eraill yn y dosbarth.

Mae pob plentyn yn mynd â llyfr darllen adref yn rheolaidd. Gofynnwn i deuluoedd sicrhau bod plant yn cael gwrandawiad a chymorth wrth ddarllen adre yn rheolaidd.

Ambell dro bydd gweithgarwch arbennig yn gofyn am wybodaeth gan oedolion neu waith holi a darganfod ar ran y plant. Gofynnwn am gefnogaeth a chydweithrediad y rhieni er mwyn hybu cynnydd y plant.

O dro i dro fe ofynnir i blentyn wneud gwaith ychwanegol er mwyn hybu cynnydd mewn agwedd arbennig. Mewn achosion fel hyn gobeithir cael cydweithrediad llwyr y cartref ac anogaeth i’r plentyn i wneud y gwaith.

# Tai Bach

**Mae gan yr ysgol y cyfleusterau tai bach gofynnol ar gyfer disgyblion mewn ysgol o’i maint ac mae’r rhain yn cael eu glanhau yn ddyddiol a’u gwirio yn rheolaidd yn ystod y dydd.**

Mae gan yr ysgol Bolisi Toiledau sy’n cydymffurfio â’r gofynion statudol.

# Asesu

**Mae asesu yn rhan o bob profiad a chyfle addysgu a dysgu yn ein hysgol; mae'n cynnwys hunanasesu, asesu cyfoedion ac adborth athrawon. Mae ein disgyblion yn gweithio gyda'u hathrawon i ddeall eu cynnydd ac i nodi camau nesaf yn eu dysgu.**

Cynhelir Nosweithiau Agored ddwywaith y flwyddyn ble fydd pob teulu yn cael cyfle i drafod cynnydd eu plentyn gyda'r athrawon dosbarth. Rydym yn annog pob teulu i fynychu'r cyfarfodydd yma gan eu bod yn allweddol i hyrwyddo cynnydd a lles ein disgyblion.

Ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd adroddir ar gynnydd disgyblion drwy adroddiad ysgrifenedig cynhwysfawr a thrafodaeth rhwng y teulu a'r athro dosbarth.

# Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

**Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn flaenoriaeth i'n hysgol. Mae'r cwricwlwm yn eang ac yn gynhwysol ac yn cynnig cyfleoedd cyfartal i bawb.**

Ein nod yw sicrhau bod anghenion pob disgybl yn cael eu diwallu trwy gynllunio'n ofalus ac amrywiaeth o strategaethau sy'n galluogi pob dysgwr i gyrraedd eu potensial. Mae'r Ddeddf ADY yn flaenoriaeth ysgol ac rydym yn gweithio'n effeithiol gydag eraill i sicrhau bod strategaethau cadarn ar waith.

Mae'r staff yn gweithio'n effeithiol y tu fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth gyda disgyblion unigol a grwpiau bach. Rydym yn darparu gwaith sydd wedi'i wahaniaethu'n addas ac sy'n berthnasol i anghenion penodol pob plentyn. Darperir ystod eang o ymyraethau i hyrwyddo cynnydd.

Mrs Wendy Owen yw Cydlynydd ADY yr ysgol ac mae'n arwain tîm effeithiol o athrawon a chynorthwywyr addysgu. Os oes gan eich plentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol, gofynnir i chi gysylltu â Mrs Owen cyn i'ch plentyn gychwyn yn yr ysgol er mwyn i ni allu cynllunio darpariaeth addas ar eu cyfer.



# Gwersi Offerynnau Cerdd

**Rydym yn cynnig gwersi llais, chwythbrennau, pres, ffidil, soddgrwth, telyn, gitâr, Ukulele a drymiau.**

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â swyddfa'r ysgol.**

# Trosglwyddo i Addysg Uwchradd

**Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Gwaelod y Garth yn trosglwyddo i dair ysgol uwchradd. Bydd nifer o'r ffrwd Gymraeg yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Plasmawr a nifer yn y ffrwd Saesneg yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Radyr.**

Darperir amrywiaeth o weithgareddau trosglwyddo gan y ddau ysgol i sicrhau pontio esmwyth o un ysgol i'r llall.
Mae'r pennaeth ac aelodau staff yn cwrdd yn rheolaidd â'r ysgolion uwchradd i drafod datblygiadau cwricwlwm a phynciau eraill a fydd yn cynorthwyo gyda phontio llyfn i'n holl ddisgyblion. Ym Mlwyddyn 6 mae'r Awdurdod Lleol yn danfon pamffled manwl at rieni sy'n rhoi'r holl wybodaeth berthnasol am y weithdrefn ar gyfer ceisiadau a derbyniadau ysgolion uwchradd.

# Presenoldeb

**Mae gennym ddisgwyliadau uchel iawn o bresenoldeb yn yr ysgol. Mae'r Ddeddf Addysg yn nodi bod yn rhaid i rieni hysbysu'r ysgol o unrhyw absenoldeb, gan roi rheswm dilys a phenodol dros yr absenoldeb, gan gynnwys ymweliadau â'r meddyg neu'r deintydd.**

Ni all yr ysgol awdurdodi unrhyw absenoldebau a gymerir oherwydd gwyliau teulu. Os oes dymuniad gennych chi i gymryd gwyliau yn ystod y tymor ysgol, rhaid gwneud cais i'r ysgol ymlaen llaw.

Mae Swyddog Presenoldeb yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i fonitro a chefnogi presenoldeb.

.

# Cyfle Cyfartal

## Cynllun Hygyrchedd

**Fel ysgol rydym yn deall pwysigrwydd dysgu ag addysgu effeithiol sy'n sicrhau'r profiadau gorau i bob disgybl yn yr ysgol. Mae yma ethos o ddeall a chefnogi pob disgybl.**

Mae'r ysgol yn sensitif i anghenion disgyblion, gan gynnwys y disgyblion ag anableddau, ac yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pawb yn cael eu cynnwys ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu ac yn barod i addasu cyfleusterau ac adnoddau ar gyfer anghenion disgyblion ag anableddau. Rydym yn awyddus i weithio gyda'n teuluoedd i'n galluogi i ddeall anghenion hygyrchedd yn llawn cyn i blant gael eu derbyn i'r ysgol. Mae materion hygyrchedd yn cael eu hadolygu'n gyson ac fe'u trafodir gyda gwahanol asiantaethau i ddiwallu anghenion pawb. Mae gan yr ysgol Bolisi a Chynllun Hygyrchedd.

.



# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

**Mae gennym gynllun Cydraddoldeb Strategol sydd yn anelu at warantu a hyrwyddo pob agwedd o gydraddoldeb yn yr ysgol.**

Rydym yn hyrwyddo dealltwriaeth o wahanol ddiwylliannau ac rydym yn sicrhau bod ethos yr ysgol yn darparu amgylchedd annogol i blant dyfu a ffynnu mewn cymdeithas amrywiol. Os hoffech gael copi o'r cynllun hwn, cysylltwch â swyddfa'r ysgol.

# Rhifau ffôn argyfwng

**Rydym yn cadw cofnod o Rifau Cyswllt Brys yn swyddfa'r ysgol rhag ofn bydd damwain neu salwch.**

Mae'n bwysig eich bod yn ein hysbysu am newidiadau yn eich manylion personol neu amgylchiadau. Mae'n hanfodol bod gan yr ysgol rifau cyswllt cywir er mwyn i ni allu cysylltu â chi mewn argyfwng.

# Iechyd a Lles

**Mae'r Gwasanaeth Nyrsio Ysgolion ymweld â'r ysgol yn rheolaidd er mwyn cynnal rhaglenni imiwneiddio ac arolygiadau golwg, clyw a deintyddol. Caiff rhieni eu hysbysu ymlaen llaw. Rhoir gwybod hefyd i rieni os oes angen triniaeth bellach.**

Os yw plentyn yn sâl neu wedi cael damwain yn yr ysgol, cysylltir â'r rhieni ar unwaith oni bai ei fod yn rhywbeth bach y gellir ei drin yn yr ysgol. Gallwn roi meddyginiaeth presgripsiwn i ddisgyblion pan fo angen. Mae angen i deuluoedd gwblhau ffurflenni caniatâd er mwyn i ni allu rhoi unrhyw feddyginiaeth.

Rhaid i blentyn sy'n sâl ac yn chwydu aros adre a pheidio â dychwelyd i'r ysgol am 48 awr yn dilyn unrhyw symptom.

Os oes gan eich plentyn anghenion meddygol penodol, yna trafodwch hyn gyda'r ysgol.

# Addysg Gorfforol a Chwaraeon

**Rhoddir cyfle llawn a chyfartal i'r holl ddisgyblion gymryd rhan ym mhob gweithgaredd addysg gorfforol a chwaraeon.**

Mae Addysg Gorfforol yn cael ei ddysgu mewn gwersi penodol ac yn cynnwys gymnasteg, dawns, gemau ac athletau. Disgwylir i'r plant ddod i'r ysgol yn eu gwisg addysg gorfforol ar gyfer diwrnodau addysg gorfforol, gan wisgo'n briodol ar gyfer y gwersi hyn - crys-T, siorts neu trowsus ymarfer corff ac esgidiau addas.

Bydd dawns a gymnasteg fel arfer yn digwydd yn y neuadd; bydd athletau a gemau yn digwydd ar y cae chwarae neu'r iard.

Mae plant blwyddyn 4 yn derbyn gwersi nofio yn ystod y flwyddyn ym Mhwll Nofio y Tyllgoed.

Mae gan yr ysgol dîm bêl rwyd a thîm pêl-droed sy'n ymarfer ar ôl ysgol. Mae'r timau'n chwarae'n rheolaidd yn erbyn ysgolion eraill. Mae'r ysgol yn cymryd rhan yng nghystadlaethau chwaraeon yr Urdd bob blwyddyn yn ogystal â chystadlaethau lleol eraill. Mae gan yr ysgol hefyd glybiau chwaraeon wythnosol.





# Gweithgareddau allgyrsiol

**Rydym yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol yn yr ysgol e.e. Clwb chwaraeon, Clwb celfyddydau, perfformio, Urdd, TGCh, clwb STEM, Minecraft a dawns i'r holl ddisgyblion.**

Gofynnir i rieni sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud i gasglu eu plant ar yr amser priodol. Rhennir gwybodaeth am glybiau all-gyrsiol ar ddechrau'r tymor. Gellir dod o hyd i wybodaeth ychwanegol ar wefan yr ysgol.



# Gwisg Ysgol

**Mae gan yr ysgol wisg ysgol swyddogol a disgwyliwn i bob disgybl wisgo'r wisg ysgol pob dydd. Mae gwisgo gwisg ysgol yn arwain at falchder yn yr ysgol ac yn ein cynorthwyo i osod a chynnal safonau personol ac academaidd uchel.**

Glas a llwyd yw lliwiau'r ysgol a gallwch brynu'r wisg gan YC Sport, Yr Eglwys Newydd.

**Y wisg:**

Sgert neu drowsus llwyd

Crys polo glas golau

Crys chwys neu gardigan glas tywyll

Dylai esgidiau fod yn rai tywyll.

Oherwydd diogelwch ni chaniateir gemwaith ag eithrio oriawr a chlustdlysau bach.

Hysbysir chi ar ba ddyddiau y bydd eich plentyn yn cael gwersi Addysg Gorfforol.
Ar gyfer y diwrnodau hyn bydd angen crys-T glas golau a throwsus neu siorts tywyll.

Gofynnir i deuluoedd sicrhau bod enw plant ar bob dilledyn sy'n cael ei wisgo yn yr ysgol.

# Diogelwch

**Mae cloeon diogelwch ar holl gatiau a drysau allanol yr ysgol. Rhaid i bob ymwelydd wneud cais trwy'r intercom ger gât flaen yr ysgol er mwyn cael mynediad i'r safle. Mae arwyddion clir yn arwain ymwelwyr tuag at y brif fynedfa a rhaid i bob ymwelydd ddod i'r dderbynfa yn syth wedi cael mynediad i'r safle.**

Ni chaniateir cŵn ar dir yr ysgol.

Ni chaniateir ysmygu ar dir yr ysgol.

# Trefn Diogelwch Plant

**Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn y plant sy'n mynychu'r ysgol.**

Mrs Helen Sharkey (Pennaeth) yw'r Uwch Berson Dynodedig (DSP) ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant. Yn ei habsenoldeb, Miss Alaw Hughes neu Mrs Wendy Owen sy'n gyfrifol. Y Llywodraethwr Dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant yw Mrs Fflur Rowlands. Gellir cysylltu â phob un ar 029 2081 0489.

Mae holl staff yr ysgol yn derbyn hyfforddiant blynyddol mewn materion diogelu ac amddiffyn plant. Pan fydd pryderon yn codi, bydd y staff yn cyfeirio at yr Uwch Berson Dynodedig (DSP) yn y lle cyntaf, neu at y Dirprwy DSP yn ei habsenoldeb. Bydd staff yn cyfeirio at swyddogion diogelu'r sir lle bo angen cyngor neu gymorth pellach.

Os oes gan rieni bryderon sy'n ymwneud ag unrhyw agwedd ar les eu plant, dylent gysylltu â'r ysgol i drafod. Lle mae pryderon yn ymwneud ag amddiffyn plant, dylid cysylltu â Mrs Sharkey ar unwaith. Dylid codi unrhyw bryderon diogelu sy'n ymwneud â'r Pennaeth gyda Chadeirydd y Llywodraethwyr, Dona Lewis.

Mae Polisi Amddiffyn a Diogelu Plant yr ysgol ar gael ar y wefan ac o swyddfa'r ysgol.



# Cyswllt Cartref ac Ysgol

**Mae'r ysgol yn cyfathrebu â rhieni a gwarcheidwaid gan ddefnyddio system neges destun ac e-bost. Rydym yn rhannu lluniau o weithgarwch dyddiol disgyblion a dosbarthiadau gyda rhieni ar SeeSaw, Google Classrooms ac Instagram. Mae'r rhain yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.**

Anfonir gwybodaeth am ddyddiadau pwysig at rieni a gwarcheidwaid yn rheolaidd ac mae ein calendr ar-lein yn cael ei ddiweddaru'n wythnosol ar wefan yr ysgol.

Rydym yn cynhyrchu cylchlythyron wythnosol i hysbysu rhieni o'r hyn sydd yn digwydd yn yr ysgol. Mae hwn yn cynnwys gwybodaeth allweddol a dyddiadau pwysig ac yn gyfle i rannu newyddion a llwyddiannau gyda chymuned yr ysgol.

Mae gan yr ysgol Gymdeithas Rhieni ac Athrawon hynod frwdfrydig a chefnogol sy'n trefnu gweithgareddau amrywiol i rieni a phlant yr ysgol. Fe'ch hysbysir o'r cyfarfodydd a digwyddiadau trwy lythyr, e-bost neu negeseuon testun.

Os hoffech drafod addysg eich plentyn cysylltwch â swyddfa'r ysgol i adael neges gydag athro dosbarth eich plentyn neu'r Pennaeth.

# Polisi Codi Tâl

**Mae'n ofynnol i Gyrff Llywodraethol Ysgolion gael polisi ynglŷn â chodi tâl am weithgareddau ysgolion. Amcanion y polisi yw:**

- i gadw'r hawl i addysg am ddim
- i sicrhau bod gweithgareddau'r ysgol ar gael i'r holl ddisgyblion, er gwaethaf gallu neu barodrwydd rhieni i gyfrannu at y gost. Pwysleisir nad oes gofyn statudol i godi tâl am addysg neu weithgareddau perthnasol, ond fe roddir hawl i Awdurdodau Addysg a Chyrff Llywodraethol i godi tâl am rai gweithgareddau pan fo angen.
- cadarnhau hawliau Awdurdodau ac Ysgolion i wahodd cyfraniadau gwirfoddol er budd yr ysgol neu gefnogi unrhyw weithgaredd a drefnir - bod hynny yn ystod neu wedi oriau ysgol.

### Taliadau

Gwneir taliadau ar gyfer ymweliadau addysgol ac ati trwy www.parentpay.com.

# Clwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol

**Darperir clwb brecwast am ddim bob dydd a phwrpas y clwb yw darparu brecwast maethlon i'r plant.**

Mae'r clwb ar agor rhwng 8.15 a 9.00am. Mae rhaid i ddisgyblion gofrestru cyn gallu cael mynediad i'r Clwb Brecwast. Er mwyn cofrestru'ch plentyn yn y clwb, cysylltwch â'r ysgol.

Mae cwmni "Fun Station" yn darparu clwb ar-ôl ysgol ar safle'r ysgol o Ddydd Llun i Ddydd Gwener. Mae'r clwb ar agor rhwng 3.30pm a 5.25pm. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â swyddfa'r ysgol.



# Ymweliadau Addysgol

**Yn aml, mae gallu trefnu ymweliadau addysgol yn fuddiol er mwyn cefnogi a chyfoethogi cwricwlwm ein disgyblion. Wrth drefnu ymweliad â mannau y tu allan i'r ysgol, sicrhawn bod y profiadau yn ystyrlon i addysg ein disgyblion.**

Ar adegau, bydd costau ychwanegol ynghlwm ag ymweliadau addysgol, e.e. ar gyfer cludiant neu dâl mynediad. Rydym yn ymwybodol o'r baich ariannol sydd ar rieni ac mae'r ysgol yn sicrhau na fydd cost unrhyw ymweliad yn afresymol. Nid oes gorfodaeth ar unrhyw riant i gyfrannu tuag at y gweithgareddau hyn. Pe bai rhieni yn dewis peidio cyfrannu, rhoddir hawl i'r Pennaeth ddileu gweithgaredd os yw'r gost yn afresymol.

# Ymweliadau Preswyl

**Pan fo gweithgaredd ysgol yn hawlio fod plentyn yn treulio un noson neu fwy oddi cartref mae gan yr ysgol hawl i godi tâl am fwyd a llety.**

Fel gyda'r gweithgareddau eraill, os gwêl yr ysgol fod cost cynnal yr ymweliadau hyn yn ormod o faich ar gronfa'r ysgol rhoddir yr hawl i'r Pennaeth ddileu'r daith.



# Cwynion

**Mae'r Awdurdod Addysg wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae cyrff llywodraethu'r ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig.**

Mae'r drefn hon wedi ei hamlinellu mewn dogfen bwrpasol. Darperir copi i unrhyw riant sy'n dymuno gwneud cwyn dan y trefniadau hyn. Mae'r drefn gwyno ar gael ar wefan yr ysgol.

Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Pennaeth. Yn y lle cyntaf, dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gwŷn gyda'r Pennaeth neu os am weld unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm.

# Gwyliau Ysgol 2026-2027

| TYMOR | DYDDIAD CYCHWYN | DECHRAU HANNER TYMOR | DIWEDD HANNER TYMOR | DIWEDD TYMOR |
|---|---|---|---|---|
| Tymor yr Hydref | Dydd Mawrth Medi 1 2026 | Dydd Llun Hydref 26 2026 | Dydd Gwener Hydref 30 2026 | Dydd Gwener Rhagfyr 18 2026 |
| Tymor y Gwanwyn | Dydd Llun Ionawr 4 2027 | Dydd Llun Chwefror 8 2027 | Dydd Gwener Chwefror 12 2027 | Dydd Gwener Mawrth 19 2027 |
| Tymor yr Haf | Dydd Llun Ebrill 5 2027 | Dydd Llun Mai 31 2027 | Dydd Gwener Mehefin 4 2027 | Dydd Mawrth Gorffennaf 20 2027 |

Ysgol Gwaelod y Garth
Main Road
Gwaelod y Garth
Caerdydd
CF15 9HJ

029 2081 0489

www.gwaelodygarth.co.uk